YSGOL PENNAL

# LLEISIAU PENNAL

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/

## CELF A CHREFFT YR URDD

Cynhaliwyd Noson Beirniadu Celf a Chrefft yr Urdd ar gyfer aelodau Urdd Rhanbarth Meirionnydd yn Neuadd Rhydymain. Roedd safon y gwaith a gyflwynwyd yn arbennig o uchel, ac mae'n bleser mawr canmol creadigrwydd ac ymdrech y disgyblion.
Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu — rydym yn falch iawn ohonynt.



Llongyfarchiadau arbennig hefyd i'r enillwyr canlynol
Creadigol 2D Bl.2 ac iau - Emilia Windsor-Lewis 3ydd
Creadigol 2D Blwyddyn 3 a 4 – Zephyr Kershaw 1af
Creadigol 2D Blwyddyn 5 a 6 – Leafin Onnen 3ydd
Graffeg Cyfrifiadurol Blwyddyn 3 a 4 – Robin Provost 2il
Graffeg Cyfrifiadurol Blwyddyn 3 a 4– Zephyr Kershaw 3ydd
Ffotograff wedi'i addasu Bl6 ac iau – Harry Larkin 2il
Ffotograff – Llun Du a gwyn Bl2 ac iau – Oskar Larkin 3ydd
Ffotograff – Llun Lliw Bl2 ac iau – Oskar Larkin 3ydd
Serameg Bl 2ac iau – Oskar Larkin 1af
Serameg Blwyddyn 3 a 4 – Harry Larkin 1af

## MACH MAETHLON

Ar y 24ain o Ebrill daeth rhywun o'r enw Veronica i blannu hadau efo ni. Roedd yna foron, sbigoglys, blodau haul, nionod bach a thatws. Cafon ni hadau i blannu yn yr ysgol. Rydym ni hefyd wedi cael rhai i blannu adref. Roeddwn ni wedi plannu'r hadau mewn potiau cardfwrdd oherwydd maen well i'r amgylchedd. Dwi'n meddwl fy hoff beth oedd cael hadau i blannu tu allan i'r ysgol. Diolch am ddod i weld ni Veronica.
Ysgrifennwyd gan Leafin blwyddyn



# EISTEDDFOD YR URDD

Llongyfarchiadau i Zephyr am dderbyn medal a thystysgrif yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Fon wythnos hanner tymor. Mynychodd Zephyr a'r teulu y Seremoni Gwobrwyo Celf a Chrefft ar fore Dydd Gwener a chael cyfle i weld y gwaith buddugol yn ystod y dydd. Roedd hyn y brofiad arbennig a llongyfarchiadau mawr iddo.






Llongyfarchiadau i Curig a Iestyn a gystadlodd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Bu Curig yn llefaru a Iestyn y chwarae'r trwmped. Nid oedd llwyddiant y tro hwn, ond roedd y ddau wedi mwynhau'r profiad o berfformio ar y llwyfan ac wedi gwneud yn arbennig o dda i gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol. Rydym yn hynod falch ohonoch. Fe wnaethoch gynrychioli'r Ffederasiwn a Meirionnydd yn arbennig - da iawn Curig a Iestyn.







Llongyfarchiadau i Miss Roberts ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod ar y Dydd Sul, Cafodd Miss Roberts a'i ffrind Catrin, ail am berfformio'r Ensemble o Gân Sioe Gerdd Bl10 a dan 25oed.

# MINI MARATHON PENNAL



Ar y 6/5/26, rhedodd Ysgol Pennal y Mini Marathon. Blwyddyn yma, rhedasom ni i fyny Talgarth, gwneud dolen trwy'r goedwig, ac yn ôl lawr i'r ysgol. Ar ôl mynd trwy'r goedwig, cawson ni cacen gan Jules cakes a chael mynd i'r parc. Anti Sian oedd yn rhedeg y Mini Marathon. Rydyn ni yn gwneud y Mini Marathon nid dim ond am hwyl, ond i godi arian i Ysgol Pennal. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi codi arian i Ysgol Pennal, a diolch yn fawr iawn i Anti Sian am helpu ni gwneud y Mini Marathon. Llwyddwyd i godi £1265 ar gyfer Ysgol Pennal.

Ysgrifennwyd gan Harry, Blwyddyn 4



















# GWEITHDAI DWR CYMRU

Bore Dydd Iau, 7fed o Fai daeth Catrin o Dŵr Cymru i wneud gwasanaeth ac wedyn gwneud prosiect am sut mae dwr yn trafeilio a sut rydym yn cael cyflenwad dŵr. Wnaethon ni ddysgu llawer iawn am y system beipio a beth mae Dŵr Cymru yn ei wneud i gadw'r dŵr yn lân. Wnes i fwynhau gwneud y prosiect a helpu adeiladu gyda fy ffrindiau. Fy hoff beth oedd dysgu am ddŵr ac mwynhau gyda fy ffrindiau. Diolch Catrin!
Ysgrifennwyd gan Angharad.





# CYFLWYNIAD PATAGONIA

Yn nosbarth blwyddyn 3-6 mae'r thema wedi bod yn 'Dŵr' ac roeddwn yn dysgu am hanes y Mimosa yn mynd i Batagonia. Cymrodd 2 fis a 7,500 milltir i gyrraedd Patagonia! Roedd y llong yn cario tê yn wreiddiol cyn cael ei newid i gario pobl.
Cyflwynodd pawb yn y dosbarth eu pwyntiau pŵer gwybodaeth am y Mimosa o flaen y dosbarth i gyd! Roeddwn ni wedi mwynhau cyflwyno ar y sgrin newydd yn y neuadd.
Ysgrifennwyd gan Curig blwyddyn 4




# GWERSI BEICIO

Ar 29ain o Fawrth daeth Iestyn a Nicky o 'Diogelwch y ffyrdd' i helpu blwyddyn 5 a 6 i fod yn saff ar y beics. Yn gyntaf aethom i Glan Yr Afon i ddysgu i roi 2 o'r gloch ar y pedal ac edrych yn ôl cyn dechrau. Ar ôl gorffen yn y Glan cerddom yn ôl i'r ysgol i gael brêc, wedyn seiclo o amgylch y tai ac ymarfer seiclo wrth y hen gapel. Roeddem gyda phartner weithiau hefyd. Ar ôl cinio aethom yn ôl i ymarfer mwy o reolau am sut i gadw yn ddiogel ar y ffyrdd. Diolch Iestyn a Nicky am sesiynau hwyl a doniol.
Ysgrifennwyd gan Iestyn blwyddyn 5

# GORNEST LYFRAU

Dydd Mercher y 28ain a Dydd Iau'r 30ain o Ebrill, roedd blwyddyn 3-6 yn brysur yn gwneud animeiddiad fel hysbyseb i 'Llyfr Sgrap Macs Sion'.
Rydym wedi bod yn mwynhau darllen 'Llyfr Sgrap Macs Sion' ac rydym yn gyffroes i weld beth sy'n digwydd nesaf. Rydym yn gwneud yr hysbysiad fel rhan o gystadleuaeth 'Gornest Lyfrau' er mwyn gweld pa blant o Gymru sy'n gallu trafod ac adnabod y llyfr orau. Mae'r hysbysiad yn rhan o'r gystadleuaeth a hefyd bydd rhan 'Trafod' y llyfr mewn pythefnos. Dwi wedi mwynhau'r llyfr achos mae'n ddoniol iawn!
Ysgrifennwyd gan Cali blwyddyn 6
Daeth Helen Lloyd Williams, Cydlynydd Siarter Iaith Gwynedd i feirniadu ond nid oedd Ysgol Pennal yn llwyddiannus eleni.






# ADDYSG GORFFOROL BLWYDDYN 6

Diolch i Ysgol Uwchradd Tywyn am drefnu'r sesiynau Addysg Gorfforol ar foreau Dydd Gwener yn ddiweddar ar gyfer Blwyddyn 6. Mae hyn yn gyfle da i ddisgyblion Blwyddyn 6 gwrdd a'r staff a'r disgyblion y dalgylch.



# GWAITH DIGIDOL

Ar y 22ain o Ebrill daeth Mr Rowlands i ysgol Pennal i wneud codio efo ychydig o Lego education a micro-bit. Dwi wedi hoffi'r llun sydd wedi dod ar y micro bit, a'r sŵn sydd wedi dod allan. Dwi wedi bod yn bartneriaid efo Bleddyn. Diolch yn fawr iawn Mr Rowlands, gobeithio ti'n gallu dod eto.
Ysgrifennwyd gan Arrow blwyddyn 3.



# CELF BWYD







Rydym ni wedi gwneud iâr yn ystod ein gwers celf bwyd. Ein cynhwysion oedd bara, caws bbq a llygaid ti'n gallu bwyta. Roedd angen i ni dorri un cylch mawr i wneud y corff wedyn addurno efo llygaid ac adenydd, pig, coesau a chrib allan o gaws. Roedd ychydig bach o fara ar ôl i ni gael torri siâp haul efo torrwr bach a'i addurno efo pelydrau crystyn. Y rhan gorau oedd cael bwyta'r celf bwyd ar ôl gorffen!
Rydym ni wedi gwneud trên hefyd gan ein bod yn ymarfer ffurfio 't' fel rhan o deulu 'i'. Roedd raid i ni dorri'r bara yn ei hanner, ac yn ei hanner eto i wneud pedwar chwarter i greu gwahanol rannau'r trên, wedyn torri'r crystiau i greu'r trac, wedyn addurno efo olwynion ciwcymbr. Os oedd gennym ni grystiau ar ôl, roedd raid i ni greu 't' wedi ei ffurfio yn gywir.
Cawsom wneud Carys Ofalus un wythnos hefyd gan ein bod wedi bod yn dysgu sut i fod yn hapus a diogel wrth fynd am dro.
Fel ac a ddwedwyd gan Silyn, Llewyn, Patrick ac Oskar.

# CITIAU CYDBWYSO

Iâr / Dinosoriaid ydi thema'r tymor. Rydym ni wedi darllen stori 'Magi'n mynd am dro'. Rydym ni wedi cael llawer iawn o hwyl efo'n citiau cyd-bwyso yn creu cwrs rhwystrau sy'n debyg i daith Magi o amgylch y fferm yn mynd ar draws, o amgylch, dros, heibio, trwy ac o dan......
Fel ac a ddwedwyd gan Mabli, Abi ac Efa.

# ROBOT BACH M TINY



Rydym ni wedi bod yn dysgu rheoli'r robot bach gyda'r rheolwr i symud o amgylch map llawr mawr o Bennal. Doedd hi ddim yn hawdd rheoli'r rheolwr i wneud chwarter tro, hanner tro a thri chwarter tro i fynd i gyfeiriadau gwahanol! Wrth reoli'r robot bach, roedd raid i ni ddarllen y cyfeirnodau grid oedd o'n teithio drwyddynt wrth fynd am dro. Rydym ni'n edrych ymlaen i wneud mwy o waith codio'r robot bach.
Fel ac a ddwedwyd gan Ayda ac Emilia.

# OFFERYNNAU CERDD



Rydym ni wedi bod yn dysgu darllen nodau fel crotchet, quavers a semi quavers a'u defnyddio i greu rhythm. Ta ydi crotchet, te-te ydi quavers a tica-tica ydi semi quavers. Rydym ni wedi bod yn cymysgu'r nodau, wedyn eu darllen i greu gwahanol rhythmau. Rydym ni wedi bod yn taro'r rhythmau efo gwahanol rannau o'r corff a gyda'n offerynnau taro newydd. Diolch i Cyngor Cymuned Pennal am y rhodd o £1100 ar gyfer prynu offer cerddorol a chromebooks newydd.
Fel ac a ddwedwyd gan River a Willow.




# DATBLYGIAD CORFFOROL

Rydym ni wedi bod yn canolbwyntio ar ddysgu arddodiaid yn ein gwersi datblygiad corfforol. Ein gêm i gynhesu oedd taflu bag ffa drwy gylchoedd hwla ein gilydd wrth redeg. Os oedd rhywun yn llwyddo, roedd raid i ni roi ein cylch i lawr a gwneud deg naid seren. Roeddem ni'n cael chwarae gemau mynd o dan, dros a thrwy 'r cylchoedd hwla mewn gemau tîm. Rydym ni wedi gwneud cynnydd gyda gweithio gyda'n gilydd, dilyn y rheolau a pheidio a thwyllo, ond yn dda iawn am ysgwyd llaw a dangos parch ar y diwedd!
Fel ac a ddwedwyd gan y Dosbarth Sylfaen.

